# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Polisi Penderfyniadau

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Awdur** | **Rheswm am newid** |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Ebrill 2017 | Carys Morgans | Drafft cychwynnol |
| 1.1 | Gorffennaf 2019 | Carys Morgans | Adolygiad – dim newidiadau |
| 1.2 | Ebrill 2024 | Claire Bryant | Adolygiad - diweddariad i logo, cyfeiriadau deddfwriaeth a theitl swydd |
| 1.3 | Ebrill 2025 | Sarah Francis | Adolygiad – dim newidiadau |
| 1.4 | Ebrill 2026 | Becky Twose | Adolygiad – dim newidiadau |

# Cynnwys

Cyflwyniad ........................................................................... 3
Y Fframwaith Strategol ........................................................................... 3
Egwyddorion Penderfynu ........................................................................... 4
Y Broses Benderfynu ........................................................................... 4
Dirprwyo ar gyfer Penderfynu ........................................................................... 5
Cofnodi Penderfyniadau ........................................................................... 5
Goruchwylio'r Proses Benderfyniadau ........................................................................... 6
Matrics Gwneud Penderfyniadau ........................................................................... 7

## Cyflwyniad

Mae'r polisi hwn yn gosod allan y broses benderfynu gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (y 'Comisiynydd'). Mae'n amlinellu'r ymagwedd a'r egwyddorion dros wneud penderfyniad a hefyd yn rhoi gwybodaeth am sut bydd penderfyniadau yn cael eu cofnodi a'u cyhoeddi.

## Y Fframwaith Strategol

Mae penderfyniadau a gymerir gan y Comisiynydd yn deillio'n bennaf o gyflwyno cyfrifoldebau statudol. Mae'r fframwaith strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau gan Gomisiynwyr yn cynnwys:

- Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 sydd yn nodi swyddogaethau'r Comisiynydd fel unig gorfforaeth ac yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer penderfyniadau'r Comisiynydd;
- Gorchymyn Protocol Plismona 2023 yn nodi'r fframwaith y dylai'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl weithio y tu mewn iddo. Mae hefyd yn mynnu bod yr holl bartïon yn cydymffurfio ag Egwyddorion Nolan.
- Codau Ymarfer Rheoli Ariannol ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu yn darparu eglurdeb ynghylch trefniadau llywodraethu ariannol gan bennu'r angen i sefydlu egwyddorion llywodraethu da yn y ffordd y mae swyddfa'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n gweithredu;
- Gorchymyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Etholedig (Datganiad derbyn Swydd) 2012 sydd yn gofyn i'r Comisiynydd dyngu llw amhleidioldeb. Trwyddi mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i wasanaethu pobl leol heb ofn na ffafriaeth a nodi ei ymroddiad i gyflawni'r rôl gyda hygrededd, amhleidioldeb a thegwch yn gyhoeddus ;
- Gorchmynion Cyrff Plismona Etholedig Lleol (Gwybodaeth Benodedig) 2011 a'r Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Newidiad Gwybodaeth Benodedig) 2012, 2013 a 2021 yn nodi gwybodaeth sydd rhaid ei chyhoeddi gan y Comisiynydd ac sydd yn cynnwys cyfeiriad penodol at benderfyniadau. Mae yn nodi graddfeydd amser a'r gofynion ar gyfer cofnodi a chyhoeddi penderfyniadau a pholisïau cysylltiedig; a
- Fframwaith strategol y Gorchmynion Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018 yn nodi'r safonau gofynnol ar gyfer cyhoeddi.

Gofyniadau statudol ar gyfer cofnodi a chyhoeddi penderfyniadau yn canolbwyntio ar yr angen i gael tryloywder a sicrhau hygrededd o fewn y broses. Bydd y Comisiynydd yn cynnal safonau cadarn parthed cywirdeb, rheoleidd-dra a thryloywder wrth wneud penderfyniadau a gwneir pob penderfyniad yn unol â lles y cyhoedd yn unig.

## Egwyddorion Penderfynu

- **Bydd y broses benderfynu'n dryloyw ac yn wybodus:** Gwneir penderfyniadau ar sail gwybodaeth o ansawdd da a chyngor gwrthrychol clir er mwyn lleihau'r perygl y gwneir penderfyniadau sy'n methu â chyflawni amcanion y Comisiynydd neu sy'n arwain at ganlyniadau anfwriadol.
- **Er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus, bydd y Comisiynydd yn rhoi'r ystyriaeth briodol i'r holl bartïon perthnasol** ac yn achos rhai penderfyniadau bydd ymgynghori ac ymgysylltu'n ofyniad statudol. Bydd y Comisiynydd yn ystyried y modd priodol i ymgynghori parthed unrhyw benderfyniad, a all gynnwys y Prif Gwnstabl ac aelodau eraill o'r Bwrdd Plismona, arbenigwyr testun, partneriaid a'r cyhoedd. Bydd y Comisiynydd yn cynnal y safonau uchaf o ran hygrededd a gonestrwydd wrth wneud penderfyniadau, yn unol ag Egwyddorion Nolan.
- **Cael 'ystyriaeth ddyledus' o fewn y broses benderfynu**: Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi dyletswydd ar y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl, partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol i ystyried cynlluniau a blaenoriaethau pob sefydliad.
- **Bydd y penderfyniadau yn gyfreithlon, yn gyfrifol, yn deg ac yn gymesur**: Bydd y Comisiynydd yn defnyddio eu ymgynghorwyr proffesiynol (staff SCHTh, ymgynghorwyr cyfreithiol ac yn y blaen) wrth benderfynu. Ystyrir effaith pob penderfyniad ar y sawl sydd yn byw ac yn gweithio yn ardal Dyfed-Powys, ystyrir cydraddoldeb o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys yr iaith Gymraeg) a materion hawliau dynol fel ag sydd yn briodol. Cyflawnir y penderfyniadau gan anelu at gael gwerth am arian. Efallai y bydd adegau pan fydd angen Cyflawniad Effaith Cydraddoldeb (CEE) wrth weithredu'r polisi hwn.
- **Bydd pob penderfyniad o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd yn cael ei gofnodi a'i gyhoeddi**: Nodir y gofyniad statudol ar gyfer cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth ynghylch penderfyniadau yn y Gorchmynion Gwybodaeth. Bydd adegau pan fydd rhaid cadw rhywfaint o wybodaeth yn gyfrinachol e.e. pan materion o ddiogelwch cenedlaethol, diogelu unigolion neu wybodaeth a all effeithio ar weinyddu cyfiawnder. Bydd y Comisiynydd yn ystyried yn ofalus cyn penderfynu bod gwybodaeth yn gyfrinachol. Dilynir egwyddorion Rhyddid Gwybodaeth.

## Y Broses Benderfynu

Yr allwedd i wneud penderfyniadau gwybodus yw proses gadarn a ddefnyddir yn gyson, sydd yn cynnwys:

- Pennu'r ffeithiau perthnasol;

- Ymgynghori â'r rheini sydd â diddordeb neu sydd yn cael eu heffeithio;
- Ystyried pob cam gweithredu rhesymol sy'n ar gael i'r Comisiynydd;
- Ceisio cyngor arbenigol priodol;
- Ystyried risg, perfformiad a gwybodaeth ariannol; a
- Sicrhau gwerth am arian.

Bydd penderfyniadau yn amrywio o'r rhai unigol, sydd â phwyslais mewnol ac sydd ag iddynt effaith isel hyd at rai sydd o ddiddordeb arwyddocaol, canlyniadau a chost i'r cyhoedd. Bydd y raddfa symudol hon o benderfynu fel arfer yn mynnu graddfa berthnasol a chyfatebol o ran maint y wybodaeth, cyngor, cefnogaeth, her, craffu ac ymgynghori a roddir cyn ac ar ôl y penderfyniad.

## Dirprwyo ar gyfer Penderfynu

Mae'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn nodi paramedrau penderfyniadau a ddirprwyir i staff y Comisiynydd a phersonél yr Heddlu. Mae hyn hefyd yn berthnasol ar gyfer cydsyniadau, rheoliadau ariannol ac archebion sefydlog ar gyfer contractau.

## Cofnodi Penderfyniadau

Er mwyn sicrhau bod yr Heddlu a'r Comisiynydd yn glynu wrth egwyddor agoredrwydd a thryloywder, mae'r wybodaeth a ddefnyddir i ddylanwadu ar y broses benderfynu yn cael ei chofnodi mewn dogfennau ac adroddiadau. Gwneir penderfyniadau hefyd yn ystod y Bwrdd Plismona a'r Bwrdd Atebolrwydd Plismona yn dilyn trafodaethau manwl gyda'r Prif Gwnstabl. Cofnodir penderfyniadau o'r fath yng Nghofnodion y cyfarfodydd a byddant ar gael i'r cyhoedd. Mae Panel yr Heddlu a Throseddu yn craffu pob penderfyniad yn chwarterol.

Atebir gofynion cynllun cyhoeddi'r Comisiynydd, sydd yn cynnwys gofyniad y Gorchmynion Gwybodaeth, o ran cyflwyno a chofnodi penderfyniadau'n amserol, gan gynnwys pob penderfyniad sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd.

Rhaid penderfynu ar ddiffiniad o benderfyniadau sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd yn y ffeithiau perthnasol fesul achos. Gellid cynnwys penderfyniadau gan y Comisiynydd sydd yn:

- Effeithio'n sylweddol ar gyflwyno gwasanaeth i gymunedau Dyfed-Powys;
- Effeithio'n sylweddol ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn blaenoriaethu'r Cynllun Heddlu a Throseddu;
- Gofyn am wariant tu allan i gyllideb gyfalaf a refeniw am y flwyddyn;
- Sydd yn berthnasol i wariant tu hwnt i'r cyfyngiadau a osodir yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol;
- Sydd yn gysylltiedig â'r Prif Gwnstabl a swyddogion uwch o fewn SCHTh;

- Sydd yn gysylltiedig â strwythur SCHTh; ac sydd yn cael ei ystyried i fod o ddiddordeb arwyddocaol i'r cyhoedd. (Wrth benderfynu hyn, ystyriwch ddiddordeb y cyfryngau / cwynion /ceisiadau Ryddid Gwybodaeth posib).

## Cyhoeddi Penderfyniadau

Y meini prawf allweddol ar gyfer penderfynu a ddylai penderfyniad gael ei gyhoeddi yw:

- ei berthnasedd i ddyletswydd hanfodol y Comisiynydd i sicrhau bod yr Heddlu, eu Swyddfa a gwasanaethau a gomisiynir yn effeithlon ac yn effeithiol; ac
- ymrwymiad y Comisiynydd i gael barn y gymuned am blismona, fel eu cynrychiolydd etholedig.

Cyfrifoldeb Cynghorydd SCHTh sydd yn arwain ar fater yw sicrhau bod log penderfyniadau cael ei gwblhau lle bo angen.

Bydd y Prif Weithredwr a Swyddog Monitro yn cynnal trosolwg i sicrhau bod pob penderfyniad yn cael ei gofnodi a bod pob gwybodaeth sydd yn gysylltiedig yn cael ei chadw. Hefyd, bydd y Prif Weithredwr a Swyddog Monitro yn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gohebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol, unwaith y bydd y Comisiynydd yn gwneud penderfyniad, ac yn bennaf oll i sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau eu gweithredu.

Bydd y Comisiynydd yn cyhoeddi penderfyniadau yn unol â gofynion statudol gwefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Defnyddir datganiadau i'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd cyhoeddus i gyhoeddi penderfyniadau, gan ddibynnu ar ddiddordeb y cyhoedd mewn perthynas â phob penderfyniad unigol.

Er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, bydd awdur y log penderfyniadau'n sicrhau bod y ddogfen yn cael ei chyhoeddi yn Saesneg ac yn y Gymraeg yr un pryd.

## Goruchwylio'r Proses Benderfyniadau


Mae gan swyddogion statudol SCHTh - y Prif Weithredwr a Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyllid - gyfrifoldeb statudol dros adnabod unrhyw beth sydd yn groes i egwyddorion craidd llywodraethu da neu sydd yn gwyro oddi wrthynt. Bydd y swyddogion statudol felly yn gweithredu fel ceidwaid y pyrth i sicrhau bod y polisi hwn a'i egwyddorion yn cael eu gweithredu. Felly, rhaid i bob log penderfyniadau gael ei adolygu gan naill ai'r Prif Weithredwr a Swyddog Monitro neu'r Prif Swyddog Cyswllt cyn cael ei arwyddo'n derfynol gan y Comisiynydd. Rhaid i'r swyddogion statudol adrodd am unrhyw beth sydd yn codi pryder ynghylch penderfyniad.

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn nodi rôl Panel yr Heddlu a Throseddu, sydd yn gyfrifol am adolygu a chraffu penderfyniadau'r Comisiynydd. Rhoddir crynodeb o'r penderfyniadau i Banel yr Heddlu a Throseddu bob chwarter.

Mewn achos cyhuddiad o gamweinyddu, mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn caniatáu i'r Comisiynydd gael ei hymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan adran 25 Ddeddf Llywodraeth Leol 1974 ac atodlen 3 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.

## Matrics Gwneud Penderfyniadau

Dylid ymgynghori â'r matrics isod wrth ystyried a oes angen cofnodi a chyhoeddi penderfyniad dau log penderfyniad.




Tebygolrwydd ar gyfer ei gynnwys yn y log penderfyniadau

(angen gwybodaeth gynyddol, cyngor, cefnogaeth, her, craffu ac ymgynghoriad)